**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**DIGWYDDIAD AIG WOMEN'S OPEN – CLWB GOLFF BRENHINOL PORTHCAWL 2025**
**(LLWYBR TROED 20 PORTHCAWL A LLWYBR TROED 55 CORNELI)**
**GORCHYMYN CAU DROS DRO 2025**

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Porthcawl a Chorneli, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a phob pŵer galluogi arall, yn bwriadu cyhoeddi Gorchymyn a fydd yn cau'r llwybrau troed a nodir yn yr atodlen isod dros dro mewn dim llai na 7 diwrnod o'r Rhybudd hwn.

Cafwyd caniatâd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru, i wneud y Gorchymyn yn unol â 16B(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol i ganiatáu perimedr diogel yn ystod Digwyddiad AIG Women's Open a gynhelir yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl, er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd, athletwyr proffesiynol proffil uchel, a'r rhai sy'n mynychu'r digwyddiad.

**Amserlen – Cau Llwybrau Troed Dros Dro**
Mae'r cyfyngiad yn dechrau wrth gyffordd Llwybr Troed 20 a 22 Porthcawl (Pwynt A, Cyfeirnod Grid: SS 79627 79282) ac yn parhau ar hyd Llwybr Troed 20 Porthcawl i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol cyffredinol am 66 metr i gyffordd Llwybr Troed 55 Corneli. Yna mae'n parhau ar hyd Llwybr Troed 55 Corneli i gyfeiriad dwyreiniol cyffredinol am 1,028 metr lle mae'n ailymuno â Llwybr Troed 20 Porthcawl (Pwynt B, Cyfeiriad Grid: SS 80676 79326).

Daw'r Gorchymyn i rym ar 30 Gorffennaf 2025 a bydd yn parhau mewn grym tan 4 Awst 2025, gan gynnwys y dyddiad hwnnw.

Fodd bynnag, ni fydd y cyfyngiadau'n berthnasol ond ar yr adeg ac i'r graddau a nodir o bryd i'w gilydd gan arwyddion traffig. Bydd y rhain yn cael eu pennu gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Mae'r llwybr amgen yn mynd ar hyd Llwybr Troed 20 Porthcawl, Llwybr Troed 55 Corneli, Heol y Gorllewin, Ffordd Anglesey, Llwybr Troed 1 Porthcawl, llwybr beicio Locks Common, a Llwybr Troed 22 Porthcawl.

Dyddiedig: 03/07/2025
K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.